

## Gwneud cychod dail ar gamlas Llangollen



# ANTURIAETHAU DIGIDOL SIR DDINBYCH

Lawrlwytho antur yfory

Mae'r gweithgaredd teuluol hwn yn eich herio chi i gasglu cymaint ag y gallwch chi o ddeunyddiau naturiol, ac wedyn eu defnyddio i adeiladu 'cwch', sy'n barod i hwylio ar gamlas Llangollen.

### Cyn i chi ddechrau



### Sut i fynd yno

Mae'r antur hon yn digwydd yn Rhaeadr y Bedol ac ar gamlas ryfeddol Llangollen. I gyrraedd y man gychwyn, cymerwch yr A542 o Langollen tuag at Rhuthun, ac ar ôl tua milltir a chwarter, trowch ar y B5103 gan ddilyn yr arwydd am Corwen, Llantysilio a Rhewl. Fe fyddwch yn dod i gyffordd gyda thri arwydd ffordd – Corwen (B5103), Rhuthun a Rhaeadr y Bedol (y ffordd y daethoch) a Llantysilio a Rhewl. Gwnewch yn siŵr eich bod yn dal i fynd yn syth ymlaen, gan ddilyn yr arwyddion am Llantysilio a Rhewl. Ar ôl tua 200m fe ddowch at le parcio ar y chwith (mae arwydd brown am le picnic ac mae toiledau hefyd ar gael yma). Efallai y bydd arnoch chi hefyd eisiau cael golwg ar fap o'r ardal yn y maes parcio.

Yna ar droed, trowch i'r chwith allan o'r maes parcio, a chychwyn cerdded tuag at eglwys hyfryd Llantysilio. Cymerwch ofal yma gan nad oes unrhyw balmentydd ar y ffordd yma. Mae'r eglwys ar y chwith ichi – ewch i lawr y llwybr bach, ac yna drwy'r giât fach i'r chwith o brif fynedfa'r eglwys (peidiwch â mynd i fynwent yr eglwys). Yna dilynwch y llwybr i lawr i Afon Dyfrdwy (unwaith eto, cymerwch ofal, gan fod y llwybr yn aml yn fwdlyd iawn ac nid yw'n ddefnyddol ar gyfer bygis na'r rheini sydd â phroblemau symudedd).

### Cod Post:

LL20 8BT

### Trafnidiaeth gyhoeddus

Am wybodaeth ar y dewisiadau o safbwynt trafndiaeth gyhoeddus, ffoniwch Traveline Cymru ar 0871 200 2233 neu Ymholiadau Rheilffyrdd Cenedlaethol ar 08457 48 49 50.

### Gadewch i ni gychwyn

Wrth gerdded i lawr y llwybr at yr afon, dylech gychwyn casglu'r tameidiau a'r manion y bydd arnoch eu hangen i wneud eich cwch. Cadwch lygad am ddail mawr sydd wedi syrthio oddi ar goed. Rhai gwyrdd yw'r gorau, gan y gall rhai brown fod yn rhy frau a chychwyn malu'r ddarnau wrth ichi eu gweithio.

Bydd arnoch chi angen brigau yn ogystal, i wneud mastiau neu eu plethu â'i gilydd i wneud rafft. Ac os cewch hyd i ddarn mawr o risgl sydd wedi plicio oddi ar goeden, fe fyddwch chi'n lwcus iawn!

Cafodd rhaeadr anhygoel y Bedol o'ch blaen ei adeiladu gan beiriannydd enwog o'r enw Thomas Telford yn 1806. Roedd hyn yn helpu mynd â dŵr o afon Dyfrdwy i Gamlas Llangollen, a oedd bryd hynny'n cludo nwyddau fel llechi a gwllân wedi eu llwytho ar gychod i bob rhan o Brydain.

Telford a adeiladodd y gamlas hefyd, gyda help cannoedd o ddynion, a'i torrodd allan o'r graig. Ond roedd Telford bob amser yn awyddus i'w waith weddu â'r tirlun yn hytrach na'i ddifetha. Ydych chi'n meddwl ei fod wedi llwyddo? (1)



## Man cychwyn y gweithgaredd

Cychwynnchw ar y gweithgaredd hwn unwaith y byddwch wedi mynd trwy'r giât wrth ochr prif fynedfa'r eglwys.

## Pa mor hir y bydd y gweithgaredd hwn yn ei gymryd?

Gellir cwblhau'r gweithgaredd hwn mewn hanner awr, ond efallai y byddwch chi'n dewis aros yn llawer hirach i fwynhau mwy ar y gamlas a'r afon, neu hyd yn oed gael picnic!



## Beth fydd ei angen arnoch

Esgidiau cerdded cyffyrddus

Digonedd o synnwyr cyffredin – mae chwarae wrth ymyl dŵr yn hwyl, ond gall fod yn beryglus hefyd.

Mwy fyth o ddychymyg.

## Gair o gyngor

Pam na thynnwch chi luniau o'ch cychod dail a'u rhannu nhw gyda ni ar dudalen Darganfod Sir Ddinbych ar Facebook (chwiliwch Darganfod Sir Ddinbych).

Ydych chi'n dod gyda phram neu fygi? Os felly, efallai fod man cychwyn gwell ichi: trowch oddi ar y B5103 pan welwch chi arwyddion am westy'r Chainbridge, parciwch wrth y gwesty (noder nad yw parcio ar gael ond i bobl sy'n defnyddio cyfleusterau'r gwesty'n ogystal), ac yna ewch am dro ar hyd y dŵr yn union y tu ôl i'r gwesty. Dylech allu cael hyd i ddigon o ddeunyddiau i roi cynnig ar wneud cwch dail yma hefyd!



## Yn ôl i'r man cychwyn

Cerddwch yn ôl ar hyd y llwybr i'r car, yr un ffordd ag y daethoch.



## Beth oeddech chi'n ei feddwl?

Dywedwch eich barn am y gweithgaredd hwn ar dudalen Darganfod Sir Ddinbych ar Facebook.

Mae dau wahanol fath o gynlluniau cychod y gallwch eu dewis. Mae'n debyg mai'r un symlaf i'w adeiladu yw un yr ydym wedi ei alw'n gwch rhwyfo.

Y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw gwthio brigyn tenau trwy un pen o ddeilen, ac yna ei bwytho allan trwy'r pen arall hefyd. Os oes gennych chi ddeilen gyda choes hir, gallwch ddefnyddio'r goes ei hun yn lle brigyn. Plygwch y goes drosodd a'i phwytho trwy ben arall y ddeilen. Fe fydd hyn yn creu cwch rhwyfo syml.

Os yw'r ddeilen yn ddigon mawr, ceisiwch droi eich cwch rhwyfo'n llong morladron trwy ychwanegu mwy o fastiau a hwyliau. Y cyfan mae angen i chi ei wneud yw gwthio coesau'r dail llai trwy'r ddeilen fwy fel eu bod yn sefyll i fyny a ffurfio hwyliau. **(2)**



Neu gallwch addurno eich cwch â blodau, hadau a dail o liwiau gwahanol – ond cofiwch beidio â defnyddio dim byd ond gwrthrychau naturiol, peidiwch fyth â defnyddio plastig nac unrhyw ddeunydd artiffisial arall a allai dagu'r gamlas. **(3)**



Mae gwneud rafft yn ddewis arall. Da iawn chi os ydych chi wedi cael hyd i'r darn hwnnw o risgl. Mae'n ddeunydd naturiol ysgafn, sy'n golygu y dylai fod yn ardderchog ar gyfer arnofio. Ceisiwch wasgu brigyn i'r rhisgl i weithredu fel mast ac wedyn ychwanegu deilen fel hwyl. Os yw'r gwynt yn dal y ddeilen, dylai saethu ar draws y dŵr.

Os ydych chi'n teimlo'n wirioneddol uchelgeisiol, gallwch adeiladu rafft trwy glymu brigau a ffyn at ei gilydd gan ddefnyddio darnau hir o wair. Mae'n gofyn am gryn dipyn o amynedd ond gyda mast a hwyl, maen nhw'n edrych yn wych.

Er mwyn profi athrylith Telford fel peiriannydd, mae hi bellach yn bryd rasio'ch cychod.

Fe allech chi eu rhoi nhw yn y dŵr cyn Rhaeadr y Bedol a gweld pa un yw'r cyntaf i hwylio dros yr ymyl!

Neu, os dilynwch chi'r llwybr dros y bont fach a heibio i'r adeilad brics (hwn yw adeilad y llifddor, sy'n rheoli llif y dŵr i'r gamlas), fe allwch chi rasio'ch cychod ymhellach i fyny'r gamlas. Awgrymwch eich bod yn cerdded heibio i adeilad y llifddor ac wedyn heibio i westy'r Chainbridge (ar y dde ichi) am tua phum munud – byddwch yn dod i fan diogel lle gallwch ollwng y cychod yn ofalus i'r dŵr.

Roedd Telford yn beiriannydd arbenigol a chynlluniodd y gamlas yn y fath fodd fel ei bod hi'n llifo'r mymryn lleiaf i lawr allt yr holl ffordd ar hyd ei 11 milltir. Roedd hyn yn golygu nad oedd yn rhaid iddo adeiladu unrhyw loc i helpu'r cychod fynd i lawr ar hyd-ddi. Roedd hynny'n arbed arian ac yn helpu rhoi golwg llawer mwy naturiol i'r ddyfrffordd.

Mae hwn yn llecyn ardderchog am ras. Ni fydd y dŵr yn llifo mor gyflym ag mewn rhannau eraill o'r gamlas, felly dylai fod mai'r cychod sydd wedi cael eu cynllunio orau – neu'r rhai gyda'r mwyaf o hwyliau – sy'n ennill.

Hwyl ar yr hwylio!

.....

## **Peidiwch anghofio am**

Gan eich bod yn yr ardal, mae llawer o fannau eraill arbennig y gallech ymweld â nhw...

### **Trên stem Llangollen**

Un ffactor yn unig oedd y gamlas yn y datblygiadau a drodd Llangollen yn ganolfan drafnidiaeth mor bwysig ym Mhrydain oes Victoria.

Cyrhaeddodd y rheilffordd y dref am y tro cyntaf yn 1848, a'i throï'n gyrchfan boblogaidd i filoedd o bobl yn teithio yno am y diwrnod i fwynhau'r awyr iach a'r golygfeydd anhygoel.

Caeodd y rheilffordd a'r orsaf yn 1965 a chafodd ei gadael i adfeilio hyd nes i wirfodolwyr eu hailagor yn yr 1970au fel gyrchfan boblogaidd i ymwelwyr. Mae'r orsaf bellach wedi cael eu hadfer i'w hen ogoniant, gyda'i hystafell de ei hun ac amserlen reolaidd o driplau hen drenau stêm.

Mae'r orsaf ar yr ochr draw i Afon Dyfrdwy o'r brif Stryd Fawr yn Llangollen.

Yr Orsaf, Ffordd yr Abaty, Llangollen, Sir Ddinbych LL20 8SN

Am fwy o wybodaeth, ewch i [www.llangollen-railway.co.uk](http://www.llangollen-railway.co.uk) neu ffoniwch 01978 860979

### **Taith ar gwch sy'n cael ei dynnu gan geffyl**

Mae taith ar gwch sy'n cael ei dynnu gan geffyl yn ffordd wych o werthfawrogi'r hyn sydd wedi cael ei ddisgrifio fel un o'r rhannau hyfrytaf o gamlas yn y byd.

Mae dewis o 'fordeithiau' sy'n cychwyn o Lanfa Llangollen, gyda'r daith ddwyawr yn mynd â chi i fyny at Rhaeadr y Bedol ac yn ôl.

Mae'n gyfle i gymryd rhan mewn darn gwirioneddol o hanes, gan fod y teithiau pleser hyn wedi bod yn rhedeg ers ymhell dros 100 mlynedd.

Am fwy o wybodaeth, ewch i [www.horsedrawnboats.co.uk](http://www.horsedrawnboats.co.uk) neu ffoniwch 01978 860702.

## Plas Newydd

Am bron i 50 mlynedd, y bwthyn du a gwyn unigryw hwn oedd cartref Sarah Ponsonby a'r Arglwyddes Eleanor Butler, sy'n cael eu hadnabod fel Merched Llangollen.

Treuliodd y ddwy eu 'hymddeoliad melyn a hyfryd' ym Mhlas Newydd, yn darllen, ysgrifennu a phaentio. Fe ddaethant yn enwog yn eu dydd, gyda beirdd rhamantaidd fel Lord Byron a Wordsworth, yn ogystal â Dug Wellington, ymysg eu hymwelwyr.

Perchnogion diweddarach a roddodd y tu allan Gothig i'r adeilad, ond cafodd yr holl gerfiadau derw sy'n llenwi'r tu mewn ei gasglu gan y Merched. Mae'n werth mynd am dro i'r gerddi hefyd, ac mae caffi a lawnt fowlio yno'n ogystal.

Plas Newydd, Stryd y Rhiw, Llangollen, Sir Ddinbych LL20 8AW.

Am ymholiadau cyffredinol, archebu neu achlysuron arbennig, ffoniwch: 01978 862834 (Ebrill – Medi), neu 01824 708274 (Hydref – Mawrth).

Am fwy o wybodaeth, ewch i [www.sirddinbych.gov.uk/treftadaeth](http://www.sirddinbych.gov.uk/treftadaeth)